# DISGRIFIAD SWYDD

**Teitl Swydd:** Cogydd dan Hyfforddiant

**Cwmni:** Tai ClwydAlyn Cyfyngedig

**Yn atebol i:** Rheolwr Cynllun/Pen-cogydd neu Gogydd

**Cymwysterau:** Profiad mewn amgylchedd arlwyo yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol. Dim angen cymwysterau (rhoddir hyfforddiant)

**Dyddiad y Gwerthusiad:** Chwefror 2023

**Gofyn Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:**

**Gwiriad Trylwyr gan y DBS a Gwirio'r Rhestr Waharddedig**

Mae'r rôl hon yn un lle'r aseswyd bod angen gwiriad Trylwyr gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwirio'r Rhestr Waharddedig oherwydd bod y gwaith yn cael ei wneud yn uniongyrchol gyda phobl fregus neu blant sy'n cael ei ystyried yn weithgaredd a reoleiddir. Bydd angen i'r staff ddangos trwy eu gwiriad DBS nad oes ganddynt unrhyw gollfarnau, rhybuddion, cerydd na rhybudd wedi eu treulio neu heb eu treulio a fyddai'n effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl. Bydd y lefel hon o wiriad hefyd yn amlygu unrhyw un sydd wedi ei wahardd rhag gweithio gyda rhai bregus gan gynnwys plant.

Bydd unrhyw risgiau fydd yn cael eu dynodi trwy'r gwiriad DBS yn cael eu hadolygu gan ClwydAlyn a chynhelir Asesiad Risg. Gall canlyniad yr Asesiad Risg arwain at dynnu cynigion swyddi yn ôl neu adolygu cyflogaeth y staff presennol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am Bolisi a Gweithdrefn DBS ClwydAlyn a gellir gofyn amdanynt gan y Tîm Adnoddau Dynol.

---

- **Diben y Swydd**
    - Rhywun fydd yn rhoi cymorth i baratoi bwyd, gwneud/pobi pwdinau a helpu i gynnal cyflenwadau digonol. Cefnogi'r cogydd/cogydd cyfrifol/pen-cogydd i gadw amgylchedd gwaith glân a diogel. Bydd y cogydd dan hyfforddiant yn gweithio tuag at ofynion llawn swydd y Cogydd a disgwylir i chi gwblhau Lefel 2 mewn Lletygarwch ac Arlwyo a chymhwyster arweinydd tîm/rheoli cydnabyddedig.

Prif Gyfrifoldebau

- Coginio dan oruchwyliaeth a gyda chefnogaeth
- Y gallu i sicrhau bod y bwyd yn cael ei ddosbarthu i'r bwyty mewn modd cywir, dymunol a diogel.
- Y gallu i gynorthwyo'r pen-cogydd / cogydd /cogydd cyfrifol, gan sicrhau bod cyflenwadau bwyd yn cael eu derbyn mewn cyflwr da a'u storio yn briodol.
- Cadw'r ardaloedd gwaith yn lân, yn drefnus ac yn ddiogel.  Cynorthwyo wrth gofnodi gwybodaeth/dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer y ffeil Bwyd Diogelach Busnes Gwell a systemau mewnol (h.y. gwastraff)
- Y gallu i ddangos sgiliau TG sylfaenol a defnyddio systemau mewnol.
- Gweithio bob amser ochr yn ochr ag aelodau eraill o staff i sicrhau bod anghenion y preswylwyr yn cael eu bodloni.
- Y gallu i fwydo ceisiadau preswylwyr yn ôl, i'r pen-cogydd / cogydd o ran awgrymiadau am y fwydlen a/neu ganmoliaeth a chwynion.
- Sicrhau bod yr offer i gyd mewn cyflwr priodol a diogel i weithio.
- Dilyn cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr wrth weithredu a defnyddio'r holl offer a chemegolion h.y. COSHH.
- Ymdrin ag unrhyw drafodion ariannol dan gyfarwyddyd goruchwyliwr.
- Y gallu i weithio mewn modd hyblyg ar rota'r cynllun.  Gall rhai ohonynt fod ar oriau anghymdeithasol.